



Rhybudd uwch ynghylch rhywogaethau o bysgod anfrodorol yn systemau afon Cymru

Gorffennaf 2021

**Dyma apêl gan
Cyfoeth Naturiol
Cymru i enweirwyr am gymorth parhaus i helpu i nodi ac
adrodd am eogiaid cefngrwm.**

Diben y canllaw hwn yw sicrhau:

1. Bod yr holl randdeiliaid pysgodfeydd, gan gynnwys rheolwyr pysgodfeydd, genweirwyr a rhwydwyr, yn ymwybodol o'r siawns y bydd eogiaid cefngrwm yn dychwelyd i afonydd Cymru yn ystod 2021.
2. Bod yr holl reolwyr pysgodfeydd, genweirwyr a rhwydwyr yn gwybod beth i'w wneud pe bai eogiaid cefngrwm yn cael eu gweld neu'u dal yng Nghymru.

Yn 2017, cafwyd sawl adroddiad o ddal y rhywogaeth hon ledled y DU, yn enwedig yn yr Alban ac oddi ar arfordir gogledd-ddwyrain Lloegr. Hefyd, cofnodwyd eogiaid cefngrwm yn silio yn nwyrain yr Alban, er mai prin oedd yr adroddiadau o arfordir gorllewinol y DU ac ni fu unrhyw adroddiad o Gymru.

Credir bod y pysgod hyn yn tarddu mewn gweithgareddau dyframaethu yn Rwsia a'u bod wedi "crwydro" o afonydd yng ngogledd Norwy a Rwsia. Credir bod y niferoedd anarferol o uchel o eogiaid cefngrwm a welwyd yn 2017 o ganlyniad i ddsbarth blwyddyn arbennig o gryf gyda goroesiad morol da. Gwelwyd niferoedd is o eogiaid cefngrwm o amgylch y DU yn 2019, er y cofnododd CNC un achos o ddal unigolyn yn y trap salmonidau ar afon Dyfrdwy yng Ngogledd Cymru.

Mae'r patrwm bob dwy flynedd hwn yn sgil cylchred bywyd dwy flynedd y pysgodyn. Mae adroddiadau diweddar (Gorffennaf 2021) bellach yn awgrymu bod arsylwadau yn nyfroedd y DU yn digwydd eto, gydag 20 o eogiaid cefngrwm y Môr Tawel yn cael eu hadrodd yn yr Alban yr haf hwn, yn ogystal ag adroddiadau am niferoedd llai o ogledd-ddwyrain Lloegr ac o Iwerddon.

Risg

Ein pryder mwyaf yw'r gallai eogiaid cefngrwm gario clefydau sy'n bygwth iechyd a lles ein heogiaid brodorol. Y peth anhysbys arall yw a allai mynychder cynyddol yr eogiaid goresgynnol hyn arwain at gystadleuaeth niweidiol gyda'n poblogaethau eogiaid brodorol.

Mae ein heogiaid yr Iwerydd ein hunain mewn cyflwr peryglus a diffygiol ar hyn o bryd, gyda gostyngiad eang mewn poblogaethau, felly nid ydym am gael pwysau eraill a allai gael effaith negyddol arnynt.

Mae sefydliadau rheoli pysgodfeydd ledled y DU yn rhannu cyngor i sicrhau y gellir monitro unrhyw ymddangosiad o eogiaid cefngrwm a'u rheoli'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys cyngor parhaus i randdeiliaid, codi ymwybyddiaeth, a chysylltu â rheolwyr pysgodfeydd eraill y DU a rhyngwladol i gyfnewid gwybodaeth am unrhyw sefyllfa newydd.



Eog cefngrwm anffroddol a ddaliwyd yn afon Dyfrdwy ym mis Gorffennaf 2019

Cyngor i enweirwyr a rhwydwyr

Rydym yn poeni am gyflwr ein stociau o eogiaid yr Iwerydd brodorol: dyma pam y mae'n rhaid i'r **holl** eogiaid yr Iwerydd sy'n cael eu dal yn nyfroedd Cymru gael eu dychwelyd yn fyw ac yn iach.

Fel arfer, mae'n hawdd gwahaniaethu eogiaid cefngrwm y Môr Tawel o eogiaid yr Iwerydd, yn enwedig pan fyddant yn aeddfed ac mewn cyflwr silio.

- Os ydych yn hyderus yr ydych wedi dal eog cefngrwm y Môr Tawel, dylai'r pysgodyn gael ei ladd yn ddyngar. Adroddwch am ddal y pysgodyn cyn gynted â phosibl i CNC trwy ffonio 0300 065 3000 (24 awr y dydd) gan y bydd hyn yn galluogi i'r pysgodyn gael ei gofnodi'n ffurfiol.
- Os nad ydych yn hyderus yr ydych wedi dal eog cefngrwm, dylid rhyddhau'r pysgodyn i'r afon yn fyw lle y cafodd ei ddal, yn ddelfrydol ar ôl tynnu llun ohono a'i adrodd yn ddiweddarach i CNC. Mae hyn er mwyn sicrhau na chedwir unrhyw eogiaid yr Iwerydd ar fai.
- Os ydych wedi dod o hyd i eog cefngrwm ffres sydd wedi marw, cadwch y pysgodyn os yw'n bosibl a'i adrodd i'r Llinell Gymorth Digwyddiadau trwy ffonio 0300 065 3000 (24 awr y dydd).

Wrth gofnodi dal eog cefngrwm, casglwch ac adroddwch y manylion canlynol:

- dyddiad ei ddal neu ei weld

- lleoliad lle cafodd ei ddal (cyfeirnod grid os yw'n bosibl) a manylion y safle
- dull o'i ddal
- rhyw'r pysgodyn

Os yw'n bosibl, ceisiwch wneud y canlynol hefyd:

- tynnu llun o'r pysgodyn
- cael sampl o gennau'r pysgodyn sydd wedi'i ddal a chadw'r rhain mewn amlen bapur
- rhewi a chadw'r pysgodyn yn ei gyfanrwydd cyn gynted â phosibl ar ôl ei ddal
- pwyso a mesur hyd ffwrch y pysgodyn
- Yn ddelfrydol, dylech hefyd gymryd sampl fach ar ffurf clip o un o'r esgyll (clip o'r asgell fras neu glip o unrhyw asgell arall) yn ogystal â sampl o feinwe cyhyrau dorsal (o leiaf 2cm x 2cm).

Gellir hefyd storio eog cefngrwm wedi'i adfer neu'i gadw mewn bag plastig addas wedi'i selio mewn rhewgell ddomestig safonol cyn iddo gael ei gasglu gan CNC ar gyfer archwiliad pellach. Dylech hefyd gadw manylion y pysgodyn sydd wedi'i ddal, ynghyd â'r pysgodyn ei hun, mewn bag plastig arall wedi'i selio os yw'n bosibl.

Byddwch yn wylidwrus hefyd am unrhyw weithgarwch silio cynnar neu anarferol, yn enwedig ar ddiwedd mis Gorffennaf, mis Awst a mis Medi, pan fydd eogiaid cefngrwm yn fwyaf tebygol o fod yn weithredol mewn ardaloedd silio – yn enwedig mewn gleidiau a rhediadau bas a graeanog. Dylid hefyd adrodd unrhyw weithgarwch a amheuir inni cyn gynted â phosibl.

Bydd y wybodaeth hon y gallwch ei darparu yn helpu i sefydlu helaethrwydd ac ehangder dosbarthiad y rhywogaeth yn nyfroedd Cymru.

Sut i adnabod eogiaid cefngrwm:

Daw eogiaid cefngrwm (*Oncorhynchus gorboscha*) yn wreiddiol o ogledd y Môr Tawel.



Pacific Pink Salmon in spawning condition

Illustration by Timothy Knepp - U.S Fish and Wildlife Service

Mae ymddangosiad y rhywogaeth yn nyfroedd Ewrop yn peri pryder gan y gallai effeithio ar boblogaethau eogiaid a brithyllod môr brodorol Cymru yn y dyfodol. Nid yw effaith bosibl eogiaid cefngrwm yn eglur ar hyn o bryd; fodd bynnag, gallai'r pysgod hyn ddod â pharasitiaid a phathogenau nad ydynt yn bresennol mewn eogiaid brodorol. Mae'n annhebygol y byddant yn rhyngfridio ag eogiaid yr Iwerydd gan fod eogiaid cefngrwm yn silio tua diwedd yr haf ac mae eogiaid yr Iwerydd yn silio yn y gaeaf. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd cystadleuaeth am fwyd a thiriogaeth mewn ardaloedd o fagu rhwng poblogaethau ifanc o eogiaid cefngrwm ac eogiaid yr Iwerydd.

Sut i adnabod eogiaid cefngrwm:

- Smotiau hirgrwn mawr du ar y gynffon
- Cefn braidd yn las, ystlysau arian a bola gwyn
- Cennau llawer llai nag eog yr Iwerydd o'r un maint
- Ceg a thafod go dywyll
- 40-60cm o hyd
- Bydd gwrywod sy'n bridio'n datblygu crib nodweddiadol

I'r gwrthwyneb, dyma nodweddion arferol eogiaid yr Iwerydd brodorol:

- Dim smotiau ar y gynffon
- Fel arfer yn fwy o faint (hyd at 100cm o hyd)
- Ceg a thafod gwelw
- Cennau mwy
- Un smotyn du neu ddau ar groen y dagell
- Smotiau ar y cefn uwchlaw'r llinell ystlysol
- Cynffon dewach na chynffon eog cefngrwm

Lluniau sy'n helpu i adnabod eogiaid cefngrwm



Patrwm smotiau nodweddiadol ar y gynffon



Golwg yn y cefnfor